Cardiff Evolving Transport

# Gwella Cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel

## Pecyn Ymgynghori

CARDIFF
CAERDYDD




Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Gwella cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel

## Cefndir

Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu cynigion i wella cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel.

Fel rhan o'r newidiadau hyn, bydd y Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhT) presennol yn cael eu diweddaru.

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon wedi'u datblygu o ganlyniad i'r datblygiad ar hen safle Coleg Llanfihangel, a'r materion a godwyd ynghylch;

- Tagfeydd traffig ac oedi o Ffordd Patreane i Heol Llanfihangel;
- Parcio gan gymudwyr ar Ffordd Patreane; a
- Phryderon am symudiadau cerbydau wrth y gyffordd.

Nod y cynigion hyn yw lleihau tagfeydd traffig / oedi trwy gyflwyno lonydd traffig troi i'r chwith a throi i'r dde ar wahân o Ffordd Patreane i Heol Llanfihangel.

Dangosir cynigion dylunio cysyniadau yn y pecyn hwn.




Hoffem glywed eich barn ar y cynnig. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a geir i lywio'r dyluniadau sydd ar y gweill. Mae gwybodaeth am Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin.


# Gwella cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel

## Cynnig

Yn ogystal â darparu trefniant **gadael dwy lôn** , mae'r cynllun yn cynnwys cyflwyno **cyfyngiadau parcio** drwy newid y **GRhT** ar Ffordd Patreane i gael gwared ar barcio gan gymudwyr. Mae cyfyngiadau hefyd yn cael eu hystyried ar ochr ddwyreiniol Heol Llanfihangel i amddiffyn y lleiniau ymyl.

Bydd y mesurau hyn yn **cynorthwyo symudiadau cerbydau** wrth y gyffordd er yn diogelu mynediad i gerbydau nwyddau trwm a cherbydau gwasanaeth.

Fel rhan o'r cynigion byddwn yn cynnal mynediad i gerddwyr drwy gadw ynys draffig.




*GRhT yw'r ddogfen gyfreithiol sydd ei hangen i gefnogi ystod o fesurau, sy'n llywodraethu neu'n cyfyngu ar y defnydd o ffyrdd cyhoeddus. Er enghraifft, llinellau melyn dwbl.*

*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

Hoffem wybod **eich barn** ar y cynnig hwn, a sut rydych yn teimlo y gellid rheoli traffig, gan ein bod yn deall y gallai gweithredu'r newidiadau hyn newid patrymau teithio defnyddwyr a'r modd y bydd traffig yn symud o amgylch yr ardal.

# Gwella cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel

## Cwestiynau Cyffredin

### Beth ydych chi'n ymgynghori arno'n union?

Rydym yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i Ffordd Patreane sy'n cynnwys cyflwyno GRhT newydd a threfniant gadael dwy lôn ar Heol Llanfihangel. Mae'r cynllun gwella cyffordd hwn yn amodol ar Ddatblygiad Tai Coleg Llanfihangel yn cael caniatâd cynllunio.

### A yw hyn yn rhan o'r datblygiad tai ar hen safle coleg Llanfihangel?

Er ei fod yn gysylltiedig â'r datblygiad, mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu fel cynllun ar wahân. Nid yw'r datblygiad tai ar hen safle Coleg Llanfihangel yn cael ei ystyried na'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn (gweler uchod).

### Sut alla i wneud sylwadau ar y datblygiad tai ar hen safle coleg Llanfihangel?

Rhaid cyflwyno ymatebion i'r cynigion ar gyfer y datblygiad tai ar hen safle coleg Llanfihangel ar wahân mewn e-bost i: DatblyguTai@caerdydd.gov.uk.

### Pam ydych chi'n cael gwared â'r parcio ar Ffordd Patreane?

Mae pryderon wedi'u mynegi ynghylch ceir sy'n rhwystro'r briffordd a busnesau sy'n gweithredu ar hyd y ffordd hon.

### A fydd y cyfyngiadau parcio yn symud y problemau parcio i fannau eraill?

Awgrymodd arolygon traffig diweddar y gall y parcio ar Ffordd Patreane amrywio. O ystyried y lefelau cyfredol a gofnodwyd, mae'n debygol na fydd y problemau parcio yn cael eu dadleoli i fannau eraill, fodd bynnag, byddwn yn monitro hyn fel rhan o'r gwaith monitro ar ôl gweithredu. Mae arolygon sylfaenol eisoes wedi'u cynnal fel rhan o'r gwaith monitro. Yn ogystal â'r cyfyngiadau parcio ar Ffordd Patreane, mae cyfyngiadau parcio hefyd yn cael eu hystyried ar ochr ddwyreiniol Ffordd Patreane i amddiffyn y llain ymyl ac i gynnal traffi

### Pam na ellir defnyddio'r arian i lenwi ceudyllau?

Mae'r Cyngor yn derbyn arian ar wahân i fynd i'r afael â materion cyn



# Gwella cyffordd Ffordd Patreane / Heol Llanfihangel

## Sut i ymateb

**Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg: YMA**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: https://online1.snapsurveys.com/PWM23
Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at: Tîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

**Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 04/12/2023**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.cardiff.gov.uk**

**Ni allwn ymateb i ymatebion unigol chwaith – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**